Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

# Ysgol Gynradd Brynconin
**Llandysilio**
**Clunderwen**
**Sir Benfro**
**SA66 7TF**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2011**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Brynconin wedi ei lleoli ym mhentref Llandysilio, ger Clunderwen yn Sir Benfro ac mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas.

Yn ôl yr ysgol, daw'r disgyblion o gefndir cymdeithasol nad yw'n llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd. Mae gan oddeutu 10% o'r disgyblion yr hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim sydd yn llawer is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol.

Mae niferoedd disgyblion wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn Nhachwedd 2005. Ar hyn o bryd, mae 78 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed yn yr ysgol ac maent wedi'u trefnu mewn pedwar dosbarth o oedrannau cymysg. Mae oddeutu 5% o ddisgyblion o grŵp ethnig lleiafrifol ond nid oes yr un disgybl sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae bron 40% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r disgyblion yn cwmpasu ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Mae oddeutu 18 y cant y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n debyg i'r canrannau sirol a chenedlaethol. Nid oes yr un disgybl â datganiad statudol o anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Brynconin yn 2011-2012 yn golygu cyllideb o £3,461 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Sir Benfro yw £5,323 a'r isafswm yw £3,000. Mae ysgol gynradd Brynconin yn 37fed o'r 61 ysgol gynradd Awdurdod Sir Benfro o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Bu newidiadau sylweddol yn staffio'r ysgol ers Ebrill eleni ac o ganlyniad, profwyd cyfnod o ansefydlogrwydd. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- safonau llythrennedd, ar y cyfan, yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn drwy'r ysgol;
- disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol ac ymddwyn yn dda;
- ansawdd addysgu ar y cyfan, yn dda; a bod
- ansawdd uchel y profiadau dysgu yn ysgogi disgyblion i wneud cynnydd da.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth wedi adnabod anghenion datblygu'r ysgol ac eisoes wedi rhoi gwelliannau ar waith;
- y trefniadau hunan-arfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar yn debygol o arwain at welliannau pellach;
- yr holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd; a bod
- yr ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau ysgrifennu yng nghyfnod allweddol 2;

A2 gwella cywirdeb mynegiant llafar disgyblion cyfnod allweddol 2;

A3 sefydlu trefniadau hunan-arfarnu mwy grymus;

A4 gweithredu strategaethau asesu ar gyfer dysgu mwy effeithiol, a gwella ansawdd y marcio yng nghyfnod allweddol 2; a

A5 gweithredu ar y bwriad i sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae medrau llythrennedd y rhan fwyaf o'r disgyblion, ar y cyfan, yn dda. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'u medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol. Yn ystod sesiynau torfol, maent yn gwrando'n ofalus ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus a chywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae nifer dda yn darllen yn rhugl ac yn ysgrifennu gyda chywirdeb cynyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwrando'n ofalus yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Er eu bod yn siaradwyr hyderus, mae iaith lafar y mwyafrif o'r disgyblion yn wallus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddarllenwyr hyderus ac erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn cywain gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau, megis llyfrau a gwefannau. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio llyfrau gwybodaeth Saesneg i atgyfnerthu eu gwaith yn y Gymraeg.

Er bod pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n addas i nifer o ddibenion, mae diffygion mewn mynegiant a sillafu yn amharu ar ansawdd a chywirdeb gwaith y mwyafrif.

Mae disgyblion o bob oedran yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae bron pob un yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn ddidrafferth ac yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth a medrau newydd yn hyderus. Ac eithrio ysgrifennu, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion gan gynnwys y rhai mwy galluog a thalentog, yn gweithio i'w llawn botensial.

Ar ddiwedd y flwyddyn addysgol ddiwethaf, roedd perfformiad disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol ar y cyfan yn debyg i'r canlyniadau cenedlaethol. Gan mwyaf, mae disgyblion cyfnod allweddol 1 yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf wedi cyflawni ar lefel isel o gymharu â meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Dros yr un cyfnod, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 gan amlaf, wedi cyflawni cystal neu'n well nag ysgolion tebyg gyda pherfformiad gwyddoniaeth yn rhagori ar y tri phwnc arall. Cyfran fach o'r disgyblion sy'n cyflawni ar lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Yn gyffredinol, nid oes patrwm o danberfformio gan fechgyn o gymharu â'r merched yn yr un cyfnod allweddol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac yn rhydd oddi wrth unrhyw gamdriniaeth gorfforol neu eiriol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i ddod yn iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u datblygiad.

Ym mhob dosbarth, mae disgyblion yn ymddwyn mewn modd cyfrifol ac yn arddangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Yn ystod gwersi, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn weithgar a brwdfrydig, maent yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae llawer o'r disgyblion yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn rhwydd ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus.

Nodwedd amlwg ym mhob dosbarth yw ymglymiad cryf disgyblion i'w hysgol a'r staff. Wrth iddynt aeddfedu, mae'r rhan fwyaf yn mwynhau ac yn elwa o'r amrywiaeth o gyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau, gan gynnwys y grŵp eco a'r cyngor ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae cyfraddau presenoldeb, ar y cyfan, yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu a ddarperir yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion, cyflogwyr a'r gymuned yn llwyddiannus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r profiadau dysgu diddorol ac ysgogol a gynllunnir yn galluogi'r plant i wneud cynnydd da tuag at fodloni'r deilliannau dysgu angenrheidiol. Caiff yr ardal y tu allan ei defnyddio'n helaeth gan y Cyfnod Sylfaen i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog i blant. Trwy gynllunio ysgol-gyfan gofalus, sicrheir bod y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion a bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Mae darpariaeth briodol ar gyfer herio disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau allweddol ac yn arbennig medrau llythrennedd, ar y cyfan, wedi'u cynllunio'n dda. Mae'r rhaglenni ymyrraeth a anelir at ddisgyblion sydd â medrau llythrennedd isel, yn galluogi'r disgyblion hyn i gaffael y medrau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach.

Mae gan y Cwricwlwm Cymreig le canolog yn rhaglen waith yr ysgol a gwneir defnydd dychmygus o'r ardal leol a'i phobl i ddarparu profiadau a gweithgareddau dysgu ysgogol. Mae'r cwricwlwm, ynghyd â'r amrediad eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir, yn helpu disgyblion i ddatblygu nifer o fedrau personol a chymdeithasol allweddol yn effeithiol iawn.

Mae darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer hybu dealltwriaeth a phrofiadau'r disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau gwrth hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Yn ddiweddar, gweithredwyd strategaethau penodol ar gyfer codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cynaladwyedd a gwarchod yr amgylchfyd.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a chyfoes a'r rhan fwyaf o'r amser, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Mae'r arfer o rannu'r nodau dysgu ar gychwyn gwersi gyda'r disgyblion yn cryfhau eu hymglymiad a'u

diddordeb. Caiff ystod eang o ddulliau ac adnoddau addysgu eu defnyddio'n feddylgar er mwyn ennyn diddordeb ac ysgogi dysgu. Ar draws yr ysgol ac yn arbennig yn y Cyfnod Sylfaen, gwneir defnydd crefftus o gwestiynau penagored i ymestyn medrau meddwl disgyblion ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Ym mhob dosbarth, mae perthnasau clos rhwng oedolion a disgyblion ac anogir ymddygiad da mewn ffordd anymwthiol a chadarnhaol.

Trwy ddefnydd effeithiol o staff cymorth, darperir cynhaliaeth dda i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er hynny, ar brydiau nid yw'r tasgau wedi eu haddasu'n ddigonol ar gyfer cwrdd ag anghenion pob unigolyn.

Er y caiff amrediad eang iawn o adnoddau eu defnyddio'n bwrpasol gan athrawon, anaml byddant yn manteisio ar offer a rhaglenni technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gyfoethogi dysgu ac addysgu.

Yn gyffredinol, mae adborth llafar athrawon yn galluogi’r disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud a’r hyn mae angen iddynt wneud i wella. Mae asesu yn y Cyfnod Sylfaen yn dda a defnyddir yr wybodaeth a gasglwyd yn effeithiol i fwydo’r cynllunio i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae ansawdd marcio gwaith plant yng nghyfnod allweddol 2 yn anwadal. Ar brydiau, mae'n rhy arwynebol ac nid yw'n rhoi arweiniad digon clir i ddisgyblion ar sut i wella. Mae gweithrediad strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn ei ddyddiau cynnar o ddatblygiad.

Mae adroddiadau blynyddol disgyblion yn glir a defnyddiol a chânt eu gwerthfawrogi gan rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd gofal yr ysgol dros y disgyblion yn dda iawn. Gwna'r staff yn siŵr bod amgylchedd cynnes a chroesawgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel a'u bod yn cyflawni eu lles emosiynol a chorfforol yn llwyddiannus. Caiff disgyblion eu hannog i fwyta’n iachus a thrwy weithgareddau corfforol a chlybiau ar ôl ysgol, cânt amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei gydlynu’n dda a’i ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo presenoldeb da yn gyson ac wedi gweithredu'n effeithiol iawn mewn achosion penodol er mwyn sicrhau gwelliant.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar a thrwy asesiadau rheolaidd, cedwir golwg agos ar eu cynnydd gan bennu targedau addas a chyraeddadwy. Mae gan ddisgyblion a’r rhieni rôl weithredol yn yr holl brosesau ac mae cysylltiadau da a phroffidiol gydag asiantaethau allanol arbenigol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol, lle caiff disgyblion hawl gyfartal i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Rhoddir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth a chreu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch.

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau perthnasol o ansawdd da sydd wedi'i weddu'n briodol ar gyfer yr holl ystod oedran a gallu.

Mae'r adeilad o ansawdd da ac mae'r ysgol yn defnyddio pob gofod i bwrpas ac er lles disgyblion. Mae'r ardal y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn adnodd gwerthfawr a diddorol sy'n cynnig profiadau amrywiol i'r plant. Mae'n hyrwyddo'u dysgu a'u datblygiad personol a chymdeithasol yn effeithiol iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth fedrus y pennaeth a'r corff llywodraethol yn cyfleu gweledigaeth glir ac yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi llwyddo i adnabod prif gryfderau ac anghenion datblygu'r ysgol ac wedi rhoi gwelliannau ar waith. Mae gan yr ysgol nodau ac amcanion strategol clir a gaiff eu cyd-rannu gan staff, llywodraethwyr a rhieni.

Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth yn cydweithio'n agos fel tîm ac o dan arweiniad y pennaeth, wedi bod yn fodlon rhoi cynnig ar fentrau newydd a dulliau gwahanol o weithio. Mae pob aelod staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n gydwybodol iawn. Trwy drefniadau rheoli perfformiad trylwyr, caiff anghenion hyfforddi a datblygu staff ynghyd ag anghenion yr ysgol, eu hadnabod a'u diwallu'n drylwyr.

Mae'r corff llywodraethol yn chwarae rôl flaengar wrth adnabod blaenoriaethau a chynllunio gwelliannau. Trwy hunan-arfarnu, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae'r ysgol yn perfformio a chaiff hyn ei gryfhau ymhellach trwy nifer o ymweliadau ac arsylwadau ar y cyd gyda staff. Maent yn herio'r ysgol fel ffrind beirniadol yn effeithiol ac yn mynd i'r afael yn ddiymdroi ag unrhyw bryderon neu gwynion.

Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi ymgorffori nifer o flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ei rhaglen waith. Fodd bynnag, nid yw datblygiadau megis asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl, ar hyn o bryd wedi gwreiddio'n ddigon cadarn yn nulliau gweithio pob dosbarth. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu'n dda ac yn cyfrannu'n sylweddol at godi safonau a gwella dysgu.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae ymdrech barhaus gan y pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol i wella ar berfformiad blaenorol yr ysgol ac i gynnal safonau cyson. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cynyddol o ddangosyddion perfformiad amrywiol ynghyd â thystiolaeth gan asiantaethau eraill, wrth ddod i farn am ei pherfformiad ei hun.

Defnyddir data perfformiad yn effeithiol ac yn gyson i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella safonau. Mae’r ysgol yn gofyn barn disgyblion, rhieni/gofalwyr a’r gymuned ehangach yn rheolaidd ac yn ystyried yn ofalus unrhyw gwynion neu awgrymiadau a wneir. Mae'r broses hon yn sicrhau gwelliant cynyddol.

Mae’r prosesau hunan-arfarnu a sefydlwyd yn ddiweddar eisoes wedi dechrau dylanwadu ar gynlluniau’r ysgol ar gyfer cynnal gwelliannau. Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol yn cyfleu darlun cywir o'i sefyllfa gyfredol ac yn nodi'n glir y meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Er hynny, mae hunan-arfarnu yn ei ddyddiau cynnar o ddatblygiad ac nid yw wedi ei weithredu yn ddigon cyson i arwain at welliannau gweladwy mewn darpariaeth a safonau.

Gwnaed cynnydd da gan yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf wrth iddi fynd i'r afael â bron pob un o'r argymhellion. Mae codi safonau llythrennedd yn parhau yn flaenoriaeth yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol gref wedi sefydlu yn yr ysgol ac wedi bod yn offeryn allweddol ar gyfer hyrwyddo gwelliannau. Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi sefydlu rhai rhwydweithiau gydag ysgolion a phartneriaid eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r partneriaethau gyda'r rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn ehangu'r dewisiadau ar gyfer disgyblion ac yn cynnig manteision clir i'w safonau a'u lles. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth reolaidd a gânt am weithgareddau'r ysgol ac am gynnydd eu plant. Mae'r ganolfan dechnoleg gymunedol sydd wedi lleoli yn yr ysgol yn sicrhau bod ganddi berthynas glos gyda phobl yr ardal leol.

Mae'r cysylltiadau pontio cryf rhwng y cylch meithrin a'r ysgol yn gwneud yn siŵr bod plant meithrin yn ymgartrefu'n gyflym â bywyd yr ysgol a bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Bydd yr ysgol hefyd yn cydweithio'n glos gyda chlwstwr o ysgolion cynradd lleol a chyda'r ysgol uwchradd leol ar gyfer cymedroli asesiadau athrawon. Mae'r trefniadau pontio cynhwysfawr gydag ysgolion uwchradd yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae’r ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth yn dda trwy fanteisio'n llawn ar eu hamser a'u harbenigedd i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm.

Caiff effaith yr adnoddau ar addysgu a dysgu eu hadolygu'n gyson a chynllunnir yn fanwl ar gyfer anghenion yn y dyfodol. Mae trefniadau cyllidebu systematig a chywir yn eu lle ac mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu’n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella a lles y disgyblion.

At ei gilydd, o ystyried y deilliannau mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1 yn ystod pedair o’r pum mlynedd ddiwethaf, mae canran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 2 (y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad ar gyfer plant saith oed) wedi bod yn bennaf yn y 50% isaf o gymharu â’r meincnodau lleol a chenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg.

Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 2 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2011 mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu’n ffafriol â’r meincnodau lleol a chenedlaethol. Roedd hefyd yn uwch na’r rhan fwyaf o ysgolion eraill yn y teulu. Er bod canlyniadau Cymraeg yn debyg i’r meincnodau lleol, roeddynt yr isaf yn y teulu. Roedd nifer y disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 ychydig yn is na chyfartaledd y teulu ym mhob pwnc.

Mae canlyniadau disgyblion cyfnod allweddol 2 mewn tair o’r pum mlynedd ddiwethaf yn gadarnhaol iawn gyda chanran y disgyblion sy’n cyflawni lefel 4 neu uwch (y lefel ddisgwyliedig) mewn Cymraeg/Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn y 50% uchaf o gymharu â’r meincnodau cenedlaethol ac o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae canlyniadau gwyddoniaeth mewn tair o’r pum mlynedd diwethaf wedi bod yn y 25% uchaf o ysgolion sydd yn yr un teulu.

Yn 2011, roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn debyg iawn i’r meincnodau lleol a chenedlaethol a hefyd yn gymharus ag ysgolion o’r un teulu. Mae cyraeddiadau mewn ysgrifennu yn y ddwy iaith yn is na nag ydynt mewn llafaredd a darllen. Cyfran fechan o’r disgyblion a gyrhaeddodd lefel 5 yn unrhyw un o’r pynciau.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd pymtheg o rieni'r holiadur cyn-arolygiad, sef oddeutu chwarter o deuluoedd yr ysgol. Roedd ychydig dros hanner yr holiaduron yn mynegi bodlonrwydd llwyr ynghylch yr ysgol ac yn dweud bod:

- eu plentyn wedi cael cymorth da i ymgartrefu pan ddechreuodd yn yr ysgol a'i fod yn hoffi'r ysgol;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda, bod disgwyl i'w plant weithio'n galed a bod staff yn parchu pob unigolyn;
- eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach a'i fod yn ddiogel tra yn yr ysgol;
- yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed a'i fod wedi ei baratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol nesaf; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Teimlai nifer fechan o rieni eu bod yn ansicr o ddisgwyliadau'r ysgol o ran gwaith cartref ac nad oeddynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio gyda chwynion.

### Ymatebion i'r holiaduron i ddysgwyr

Roedd bron pob un o'r 34 o holiaduron dysgwyr a lenwyd yn mynegi agweddau cadarnhaol iawn tuag at yr ysgol. Dywed pob plentyn eu bod yn:

- teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod staff yn delio'n dda ag unrhyw fwlio a'u bod yn gwybod at bwy i droi am gymorth;
- cael llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff rheolaidd a bod yn cael help i ddysgu gan athrawon ac oedolion.

Roedd cyfran fechan o'r dysgwyr yn anghytuno bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall eu gwaith yn well.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Branwen Llewellyn Jones | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Richard Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gareth Thomas | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |